

Cywiro gwallau plygiannol drwy osod lens artiffisial ger y lens naturiol

*Mae 'arweiniad
Techlechydd' NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar sut a phryd y
gellir defnyddio
triniaethau
llawfeddygol
newydd mewn arfer
clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio gosod lens artiffisial yn y GIG i gywiro gwallau plygiannol. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechydd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n werth am arian i'r GIG.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio gwallau plygiannol na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi am y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 7.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Mae NICE wedi dweud bod llawer o dystiolaeth dda am ba mor ddiogel yw'r driniaeth hon a pha mor dda mae'n gweithio yn y tymor byr. Gellir cynnig y driniaeth hon yn rheolaidd fel opsiwn ar gyfer cywiro gwallau plygiannol cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Os yw meddyg am ddefnyddio'r driniaeth hon, dylai sicrhau y cymerir camau ychwanegol i sicrhau bod cleifion yn deall risgiau mewnbllannu lens artiffisial yn hytrach na defnyddio sbectol neu lensys cyffwrdd. Dylai egluro y gallai cataract, niwed i'r gornbilen (y gorchudd clir dros flaen y llygad) neu ddatodiad y retina (rhan fewnol y llygad sy'n sensitif i olau) ddigwydd, ac nad oes llawer o dystiolaeth am yr hyn sy'n digwydd yn yr hirdymor. Dylai hyn ddigwydd cyn i'r claf gytuno (neu beidio â chytuno) i'r driniaeth. Dylai'r claf gael y daflen hon ac unrhyw wybodaeth ysgrifenedig arall fel rhan o'r drafodaeth. Mae NICE wedi annog meddygon a gwneuthurwyr i gasglu data hirdymor am bobl sy'n cael y lensys artiffisial hyn wedi'u gosod a chyhoeddi eu canfyddiadau. Efallai y bydd NICE yn adolygu'r driniaeth os bydd rhagor o dystiolaeth ar gael.

Efallai nad hon yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer gwallau plygiannol. Dylai eich tîm gofaliachyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.

Cywiro gwallau plygiannol drwy osod lens artiffisial ger y lens naturiol

Yr enw meddygol ar gyfer y driniaeth hon yw 'gosod lens mewnlysgadol er mwyn cywiro gwall plygiannol, gan gadw'r lens naturiol'. Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn. Defnyddir y driniaeth hon i drin mathau o broblemau golwg sy'n golygu bod angen i'r person wisgo sbectol neu lensys cyffwrdd fel arfer. Mae triniaethau eraill yn cynnwys llawdriniaeth, yn cynnwys llawdriniaeth laser. Gellir cynnig y driniaeth i bobl sydd â golwg byr gwael iawn neu'r sawl sy'n ei chael yn anodd gwisgo sbectol, er enghraifft oherwydd anabledd neu oherwydd anghenion eu swyddi.

Caiff y driniaeth ei chyflawni fel arfer gyda'r claf o dan anesthetig lleol. Rhoddir diferion llygaid i'r claf i ehangu kannwyll y llygad a gosodir y lens artiffisial yn y llygad drwy doriad bach a wneir yn y gornbilen; gellir ei rhoi o flaen yr iris (rhan liw y llygad) neu'r tu ôl iddo yn dibynnu ar ddyluniad y lens. Weithiau defnyddir pwyth bach i gau'r twll.

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Disgrifir rhai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE yn fras yma. Edrychodd NICE ar 12 astudiaeth o'r driniaeth hon.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Os yw eich meddyg yn credu bod mewnbrannu lens artiffisial yn driniaeth addas i chi, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau o hyd cyn gofyn i chi gytuno i'r driniaeth.

Dylai eich meddyg esbonio'r hyn y mae cael y driniaeth yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl gyda chi. Dim ond ar ôl i'r drafodaeth hon gael ei chynnal y dylid gofyn i chi a ydych am gytuno i gael y driniaeth hon. Dylech gael gwybodaeth ysgrifenedig, gan gynnwys y daflen hon, a'r cyfle i drafod y driniaeth gyda'ch meddyg cyn i chi wneud penderfyniad.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis
cael y driniaeth
hon, cael triniaeth
wahanol, neu
beidio â chael
triniaeth o gwbl.*

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn astudiaeth o 50 o lygaid a oedd yn mesur eglurder golwg, nid oedd gwahaniaeth rhwng llygaid a driniwyd â'r lens artiffisial a'r rhai a gafodd driniaeth laser. Mewn astudiaeth fwy o 9239 o lygaid a ddefnyddiodd yr un prawf, nid oedd yn glir a oedd unrhyw wahaniaeth mewn golwg rhwng y ddwy driniaeth wahanol. Mewn astudiaeth arall, roedd cywiriad golwg da yn fwy llwyddiannus mewn llygaid a driniwyd â'r lens artiffisial (127 allan o 184 o lygaid) na'r rhai a driniwyd â laser (57 allan o 100 o lygaid) flwyddyn ar ôl y llawdriniaeth. Roedd gan 62 allan o 231 o lygaid olwg 20/20 neu well heb lensys cyffwrdd neu sbectol dair blynedd ar ôl y driniaeth. Nid oedd gan unrhyw lygaid (0 allan o 622) olwg 20/20 cyn y driniaeth.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai'r prif ffactorau llwyddiant yw gwell golwg gyda sbectol neu lensys cyffwrdd neu hebddynt, rhyddid o'r angen i wisgo sbectol neu lensys cyffwrdd, a golwg o safon barhaus.

Risgiau a phroblemau posibl

Nododd yr astudiaeth fawr fod nifer o gleifion wedi datblygu retina rydd ar ôl cael y llawdriniaeth. Cafodd 12 allan o 294 o lygaid a gafodd y lens artiffisial newydd ac 11 allan o 3009 o lygaid a driniwyd â llawdriniaeth laser retina rydd ar ôl cyfartaledd o tua dwy flynedd. Cafodd 9 allan o 5936 o lygaid a driniwyd â math arall o laser retina rydd ar ôl cyfartaledd o tua 4.5 blynedd. Datblygodd nifer o gleifion gataract. Digwyddodd hyn mewn 258 allan o 6338 o lygaid o fewn blwyddyn i osod y lens newydd. Mewn astudiaeth arall, datblygodd 1 claf allan o 43 gataract o fewn dwy flynedd i'r llawdriniaeth. Mewn un astudiaeth bu'n rhaid tynnu'r lens newydd mewn 3 allan o 399 o lygaid oherwydd iddi

niweidio endotheliwm y gornbilen (yr haen o gelloedd ar arwyneb mewnol y gornbilen). Nododd yr un astudiaeth i'r endotheliwm ddangos arwyddion niwed 4 blynedd ar ôl gosod y lens newydd. Ymhlith y symptomau eraill roedd problemau gyda disgleirdeb a gweld lleugylchoedd o amgylch pethau gyda'r nos mewn 157 allan o 263 o lygaid a driniwyd flwyddyn ar ôl y llawdriniaeth.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd cynghorwyr y gallai problemau gynnwys glawcoma, golwg waeth wrth ddefnyddio lensys cyffwrdd neu sbectol, llai o allu i wahaniaethu rhwng golau a thywyllwch, golwg wael gyda'r nos a'r angen am ragor o lawdriniaeth.

Rhagor o wybodaeth am broblemau gyda'r golwg

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi rhagor o wybodaeth a chymorth i chi.

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin cyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechydd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'gosod lens mewnllwygadol er mwyn cywiro gwall plygiannol, gan gadw'r lens naturiol'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn sydd wedi'u targedu at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael ar www.nice.org.uk/HTG183

Mae gan wefan NICE gyfleuster a elwir yn Browsealoud sy'n rhoi'r opsiwn i chi gael gafael ar ein canllaw drwy wasanaeth darllen sgrîn. Mae'r feddalwedd yn galluogi eich cyfrifiadur i ddarllen cynnwys ein gwefan yn uchel. Cliciwch ar logo Browsealoud ar wefan NICE i gael gafael arno.

Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-7874-8

N1933 1P Feb 09

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2009. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.